PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 17 IONAWR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Howells(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hunt, Murphy, Sanders, Huw Thomas a/ac Walker |

49 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Goddard.

50 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

51 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016 a 6 Rhagfyr yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

52 : BWRDD GWASANAETH CYHOEDDUS CAERDYDD: ASESU LLES

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale, Cadeirydd y BGC ac Arweinydd Cyngor Caerdydd; Maria Battle, Is-gadeirydd y BGC a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, Paul Orders, Cadeirydd y BGC Gweithredol a Phrif Weithredwr Cyngor Caerdydd; Sheila Hendrickson-Brown, Is-gadeirydd y BGC Gweithredol a Phrif Swyddog Gweithredol Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Gareth Newell, Rheolwr Gweithredol Partneriaethau ac Ymgysylltu Cymunedol i’r cyfarfod.

Gwahoddodd  y Cadeirydd yr Arweinydd i wneud datganiad lle y dywedodd y byddai'r Aelodau'n cofio, yn 2014, y rhoddwyd y dasg i swyddogion lunio'r adroddiad cyntaf ar Ddinas Fyw, Dinas Byw; gwelwyd hyn ar y dechrau fel cyfle i amlygu'r heriau a wynebir gan y Cyngor a’r Ddinas yn eu cyfanrwydd; bellach mae’r adroddiad yn adlewyrchu'r ffспоред deddfwriaethol newydd ac mae’n destun ymgynghoriad ffurfiol cyn ei gymeradwyo fis Mawrth.

Ychwanegodd ei fod yn dangos Caerdydd fel Dinas sy'n gwella, yn rheoli pwysau o ran twf, yn datblygu unigolion trwy'r twf hwnnw ond nid yw'r holl ddinasyddion yn elwa ar y twf hwnnw.  Dywedodd ei fod yn bwysig cadw hynny mewn cof a chanolbwyntio arno.  Bu materion ychwanegol o anghydraddoldebau ar draws y Ddinas.

Gwahoddodd y Cadeirydd Maria Battle, Is-gadeirydd y BGC a Chadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i wneud datganiad lle y diolchodd i’r awduron am adroddiad clir a hygyrch; ychwanegodd fod rhai negeseuon cadarnhaol iawn ynddo ond hefyd rywfaint o negeseuon o anghydraddoldeb llwyr. Dywedodd Ms Battle fod yr adroddiad yn unol â strategaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer llesiant yn y dyfodol. Mae'r ddau yn dangos gwahaniaethau o ran disgwyliad oes ac iechyd, yn dibynnu ar ba ran o'r Ddinas rydych yn byw; mae mynd i'r afael â hyn yn fater a adlewyrchir ar draws pob partner.  Dywedwyd wrth yr aelodau fod twf yn y boblogaeth yn unigryw i

Gaerdydd o ran y rhai o dan 6 oed a'r rhai dros 80 oed, sy'n cyflwyno her yn awr ac yn y dyfodol.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r aelodau ar yr Asesiad Llesiant a'r Adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw 2017 ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Cymeradwyodd yr Aelodau y Swyddogion am y gwaith enfawr a aeth i mewn i lunio'r adroddiad.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at waith Asesu Anghenion a nododd y cafodd gwaith ei wneud ar hyn yn 2015, ac eto ym mis Mai 2016 er mwyn paratoi at yr adroddiad hwn a gofynnwyd sut mae anghenion wedi newid.

- Dywedodd y swyddogion y cafodd yr asesiad o anghenion a wnaed yn 2015 ei ddiweddaru ac mae'n bresennol ar offer y we. Gofynnwyd cwestiynau ansoddol ar hyn yn yr Arolwg Holi Caerdydd; ar lefel y Ddinas mae pethau wedi newid yn araf ond bu newidiadau o ran perfformiad Addysgol, sgiliau, diweithdra ieuenctid a NEETS. Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn bwysig nodi bod rhannau o'r ddinas yn newid yn gyflym iawn; mae cymunedau'n newid ac mae anghenion yn newid o ganlyniad i hyn; yr her yw deall y newidiadau a dysgu gan brojectau eraill yr ymgymerwyd â nhw. Ychwanegodd fod cyfle trwy weithio ar y cyd i gronni adnoddau a mynd i'r afael â materion hir-sefydlog mewn meysydd megis Tai ac Addysg, ac roedd y rhain yn bethau y gallai'r BGC eu harchwilio wrth symud ymlaen.

- Wrth gyfeirio at ymgynghori, gofynnodd yr Aelodau sut y byddai'r cyhoedd yn gwybod amdano, beth yw ei ddiben a sut y gellid cael mynediad ato. Esboniodd y Swyddogion fod yr asesiad yn bodoli ar wefan y Cyngor; yr adroddiad Dinas Fyw, Dinas Byw yw'r hyn y bydd pobl yn ei weld ac yn gwneud sylwadau arno.

- Gofynnodd yr Aelodau sut mae'r ffigyrau disgwyliad oes ac iechyd yn cymharu â gweddill Cymru; a oes cydberthynas rhwng amddifadedd ac iechyd meddwl ac a oes unrhyw beth y gellir ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r mater.

- Dywedodd y Prif Weithredwr fod y ffigurau ynglŷn â Chaerdydd yn adlewyrchu tueddiadau mewn Dinasoedd Craidd eraill yn y DU lle y mae tueddiadau macro-economaidd enfawr. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion mae angen integreiddio gwasanaethau cyhoeddus a dod ag adnoddau ynghyd. Ychwanegodd Ms Battle y bu'r gwasanaeth iechyd yn gwrando ar yr hyn y mae pobl eisiau, sef gofal iechyd yn eu cymunedau lle y gallant gael mynediad ato, mewn lleoliadau addas ac i gynnwys gwasanaethau ar gyfer iechyd a lles megis coginio, campfa, llyfrgell, yn ogystal â thriniaeth feddygol. Ychwanegodd y swyddogion fod cydberthynas rhwng materion iechyd meddwl ac amddifadedd ac roedd hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag oedran.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y 46 o ddangosyddion a'r gwrthgyferbyniad rhwng rhai o'r ffigyrau; gofynnodd yr Aelodau sut y cafodd y data ei ddefnyddio a sut y câi blaenoriaethau allweddol eu nodi o'r 46 o ddangosyddion. Dywedodd yr Arweinydd, pan lansiwyd y BGC, gwnaethant nodi nifer fach o bethau i ganolbwyntio arnynt; ychwanegodd ei fod yn bwysig nodi na ddatrysir rhai

pethau o fewn blwyddyn ac mae'n cymryd cryn amser i fynd i'r afael â nhw. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, yn ei brofiad ef o ymarferion o'r fath, mae'n bwysig rheoli nifer o flaenoriaethau a chael adnoddau ar eu cyfer mewn modd effeithiol er mwyn cael yr effaith gywir. O ran y sefyllfa iechyd, dywedodd Ms Battle fod ganddynt dros 60 o ddangosyddion gan y Llywodraeth, ac ni allant oll gael eu darparu felly gwnaethant ddewis 5, a gwnaethant gytuno, fel rhan o'r BGC, y byddant yn dewis blaenoriaethau'n seiliedig ar ymgynghoriad.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddent yn defnyddio ymgynghorydd her er mwyn nodi'r blaenoriaethau allweddol yn y Ddinas, gan ddefnyddio model y Bwrdd i nodi partneriaid a ffyrdd newydd o weithio er mwyn mynd i'r afael â materion megis Addysg a chynnwys y gymuned busnes. Roedd yn bwysig rhoi ar waith drefniadau cadarn a chanolbwyntio ar nifer fach o flaenoriaethau.

O ran y data, bu rhai cyfyngiadau megis data'r cyfrifiad ond roedd y data mor gyfredol ag y gall fod. Ychwanegodd yr Arweinydd fod cysylltiadau eraill rhwng setiau data megis y cyflog byw, ac y gall annog cyfleoedd trwy, e.e., swyddi dan hyfforddiant gyda phartneriaid adeiladu momentwm a chael effaith sylweddol ar bethau megis NEET ac amddifadedd.

- Ynglŷn â NEETS, ni allai'r Aelodau weld llawer o welliant o 2012-17, tra gwelwyd enghreifftiau da o leihau NEETS yn Rhondda Cynon Taf.

- Dywedodd yr Arweinydd fod cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ar y BGC; bydd newidiadau yn y Ddeddfwriaeth Genedlaethol yn helpu gyda chael effaith a gall y Bwrdd ddylanwadu ar y llywodraeth. O safbwynt y Trydydd Parti, dywedodd Ms Hendrickson Brown, parthed Cymunedau yn Gyntaf, y bu'r effaith ar y cymunedau mwyaf ymylol ac amddifad; mae'n cymryd amser i adeiladu'r ymddiriedaeth honno yn y cymunedau ac roedd dilyniant o ran buddsoddi yn bwysig.

- Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd y cyrhaeddwyd y bobl sydd yn yr ardaloedd anoddaf i'w cyrraedd a mwyaf amddifad yn y Ddinas er mwyn sicrhau bod y cynllun Gwella yn adlewyrchu darlun cywir. Esboniodd swyddogion eu bod wedi ymgysylltu'n daer; er mwyn cyrraedd pobl ar ôl edrych ar ddadansoddiad Holi Caerdydd; roeddent wedi rhoi gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio prifysgolion a gweithio gyda'r Trydydd Sector; aethant i mewn i weithleoedd lle o'r blaen y bu cyfradd ymateb isel gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gan gefnogi hyn gyda grwpiau ffocws, buont yn gweithio gyda Chyngor y Ffoaduriaid ac yn gweithio mwy yn y gymuned.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

53 : CYNLLUN CORFFORAETHOL DINAS CAERDYDD 2017-19

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Phil Bale, yr Arweinydd, Paul Orders, y Prif Weithredwr; Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd i wneud datganiad lle y dywedodd y bu hon yn daith dros nifer o flynyddoedd, yn arbennig o ran y trafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Bu gwelliannau o ran ffurf y Cynllun, gan gynnwys symud i ffwrdd o bortffolios a chanolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol; gan gynnwys y broses gyllidebu twf ac adlewyrchu ymrwymiadau cenedlaethau'r dyfodol. Câi targedau eu hychwanegu maes o law.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Cynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Hierarchaeth Cynlluniau
- Ffurfio’r Cynllun Corfforaethol
- Gofynion y Cynllun Corfforaethol a ddaw i’r Amlwg
- 5 Ffordd o Weithio
- Hunanasesu
- Blaenoriaethau: Yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni
- Gosod Targedau
- Ymgysylltu a Chyfathrebu
- Y Camau Nesaf’

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddogion am eu cyflwyniad a gofynnodd am gwestiynau neu sylwadau gan Aelodau:

- Nododd yr Aelodau fod y blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol yn wahanol i flaenoriaethau yn y cynllun Dinas Fyw, Dinas Byw wrth ofyn beth oedd y cydberthynas rhwng y cynlluniau.

- Esboniodd y Swyddogion fod gan yr amrywiol Gynlluniau amserlenni gwahanol ac nid oedd hyn yn ddelfrydol; roedd angen proses hunanasesu er mwyn rhoi cyfle i Gyfarwyddiaethau gyfrannu a sicrhau bod y cydberthynas rhwng y Cynlluniau yn ddi-dor.

- Gofynnodd yr Aelodau a ymgymerwyd ag unrhyw fath o bost-mortem ar Gynlluniau'r blynyddoedd blaenorol er mwyn dysgu gan gyflawniadau a wnaed. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn gwerthuso'r Cynllun yn llawn yn erbyn ymrwymiadau blaenorol a heriau'r dyfodol. Byddai’r Cynllun Gwella ym mis Hydref yn edrych ar yr hyn a wnaed, fodd bynnag, cyfyngwyd ar hyn gan Lywodraeth Cymru a chan gyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ychwanegodd y Prif Weithredwr eu bod yn gwneud y gorau o’r Cynllun Gwella ac yn sefydlu egwyddorion er mwyn mynd â nhw at y Cynllun Corfforaethol y flwyddyn ganlynol.

- Roedd yr Aelodau’n bryderus am y wybodaeth yn y Cynllun mewn perthynas â Phobl sy’n Agored i Niwed a phobl Ddigartref.

- Dywedodd y Prif Weithredwr fod Swyddogion yn y gwasanaeth yn ymwybodol bod y ffigurau wedi codi'n sylweddol yn ystod y 18 mis diwethaf a bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn deall y rhesymau dros hyn.

- Cymeradwyodd yr Aelodau y gwaith ar Ddigartrefedd yr ymgymerwyd ag ef gan Swyddogion; nododd yr Aelodau y cynnydd mewn Digartrefedd a’i fod fel

arfer yn gostwng yn ystod Ebrill/Mai; nid oedd hyn yn wir yn y flwyddyn a aeth heibio.

- Gofynnodd yr Aelodau am oblygiadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol; dywedodd y swyddogion fod tebygrwydd rhwng yr amcanion Llesiant presennol a rhywfaint o ddilyniant yn y gwaith a chynllunio blaenorol; cafodd llawer o brofion mewnol eu gwneud gyda'r comisiynydd ac roedd swyddogion yn cadw'r ddeddfwriaeth mewn golwg yn llwyr.

- Byddai’r BGC yn cychwyn ar daith gynllunio a byddai unrhyw newidiadau'n hysbys ymhen deuddeg mis; pan fydd cynlluniau cyflawni ar waith bydd y swyddogion yn sicrhau eu bod yn cynllunio/gweithredu/cydymffurfio â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid alinio’r mandad gwleidyddol â strategaeth y BGC. Dywedodd y Prif Weithredwr fod partneriaid yn deall arwyddocâd blaenoriaethau gwleidyddol ac adlewyrchir hyn yn y cynllunio, felly mae'r cynlluniau wedi'u halinio.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i’r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

54 : RHAGLEN DATBLYGU SEFYDLIADOL – ADRODDIAD CYNNYDD.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad; Paul Orders, Prif Weithredwr; Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a Dean Thomas, Rheolwr Gweithredol i’r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad lle yr esboniodd fod y Cynllun Datblygu Sefydliadol yn rhywbeth symudol a ddaeth allan o adroddiad SAC – ei fwriad oedd cynnal newid. Roedd dwy egwyddor allweddol; Comisiynu ac Ailffurfio Gwasanaethau, Pobl a Lleoedd, sy'n ysgogi'r sefydliad. Byddai’r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ystod y deuddeg mis diwethaf a hwn fyddai adroddiad olaf y weinyddiaeth.

Rhoddwyd cyflwyniad i’r Aelodau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am:
- Gefndir y Rhaglen Datblygiad Sefydliadol (RhDS)
- Diweddariad ar Gynnydd
- Cysylltiadau gydag arbedion cyllidebol
- Y Camau Nesaf allweddol

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y RhCC.
- Dywedodd y Prif Weithredwr y cynhaliwyd trafodaethau gyda’r tîm cefnogi; cafodd gwaith ei wneud ar faterion technegol, gan gynnwys meddalwedd, codio ayyb., a chwblhawyd y gwaith hwnnw ychydig ar ôl y Nadolig; cafodd canlyniadau’r gwaith hwn eu profi ers hynny ac roedd adroddiad diweddaru ar

fin cael ei gyflwyno. Yn ymarferol, roedd angen cydgysylltu llawer o gronfeydd data.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y MASH gan ofyn pa mor dda roedd yn gweithio hyd yn hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi dod â'r holl asiantaethau amddiffyn allweddol ynghyd a thua'r blaen; roedd yr adborth ac argraff y Prif Weithredwr yn dda iawn. Mae MASH ynglŷn ag ymyrraeth gynnar, gan weithio gyda Heddlu De Cymru ar faterion megis Amddiffyn Plant; mae hyn wedi achosi codi sydyn o ran niferoedd ar y dechrau, gan ei bod hi'n haws bellach adrodd ar achosion; fodd bynnag mae'r gallu i ymateb hefyd wedi cyflymu. Roedd hyn yn un o nifer o fesurau i wella diogelwch ac roedd yn gweithio'n effeithiol hyd yn hyn.
- Nododd yr Aelodau mai'r radd CAG ar gyfer rhesymoli'r swyddfa oedd COCH/AMBR a gofynnwyd pam oedd hyn os oedd y project yn gwneud yr arbedion disgwyliedig.
- Esboniwyd ei fod yn broject cymhleth a oedd yn aml yn ddibynnol ar derfynau amser. Am y rheswm hwn, nid oedd byth yn mynd i fod yn WYRDD oherwydd bod ystod o faterion ynghlwm wrth bob symudiad.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd gallu gan yr arweinwyr a'r rheolwyr i gyflawni'r uchelgeisiau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cynllun Datblygu Sefydliadol wedi amlygu angen i ddatblygu staff mewn rhai meysydd; roedd angen am feddwl o'r newydd, hyfforddiant mewn swydd ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro a recriwtio rhywfaint o bobl newydd. Yn y cyfamser gwnaed newidiadau sylweddol; roedd llai o absenoldebau oherwydd salwch a chynnydd o ran ansawdd a nifer y DPP; nodwyd bod newidiadau yn cymryd amser i'w mewnosod. O ran staff mewn gwasanaethau cymdeithasol, nododd y Prif Weithredwr fod pethau ychwanegol yn cael eu gofyn gan bobl a bu angen cynyddu galluedd; ni fyddai MASH wedi gallu digwydd pe na bai galluedd wedi'i gynyddu.
- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r meini prawf sy'n ofynnol am ddod â'r gwasanaeth i mewn i'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol ac ar gyfer gwasanaethau sy'n gadael y rhaglen i fynd yn ôl i fusnes fel arfer.
- Dywedodd y swyddogion y byddai gofyniad am newid sylweddol neu gallai fod ar gyfer gwelededd corfforaethol megis arbedion cyllidebol. Ychwanegwyd bod lle am ragor o symleiddio ac y gellid symud rhai gwasanaethau allan o'r rhaglen. Cyn cau project, mae'r tîm OD yn gweithio gyda'r gwasanaeth; caiff adroddiad project ei lunio a'i gymeradwyo.
- Nododd yr Aelodau y dylai'r Cynllun Corfforaethol ysgogi'r projectau hefyd a gofynnwyd a yw wedyn yn dod yn llai o gludydd ar gyfer gwella perfformiad ac yn fwy o gludydd ar gyfer ailffurfio gwasanaethau fel busnes craidd. Cytunodd y Swyddogion y byddai; roedd yn fecanwaith ar gyfer dod â rheoli projectau a gwasanaethau a sgiliau ynghyd.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

55 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Amserlennir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ar gyfer 15 Chwefror 2017, Neuadd y Sir.